| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | • mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys darpariaethau clir ar gyfer monitro effaith newidiadau sylweddol i wasanaethau ac, o'u gweithredu mewn modd systematig, dylent helpu i sicrhau bod gwaith monitro yn dryloyw ac yn cael ei ymgorffori'n gyson i newidiadau i wasanaethau;<br>• mae'r Cyngor yn dysgu o'r profiad a gafodd yn ddiweddar wrth newid gwasanaethau ac yn gwella ei drefniadau llywodraethu cysylltiedig o ganlyniad i hynny. | |
| Gorffennaf 2017 | **Asesiad Gwelliant 2016-17, Adroddiad Dilynol ar yr Asesiad Corfforaethol - Cyngor Bro Morgannwg**<br>Mae'r adroddiad hwn yn archwilio a yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd effeithiol yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn yr Asesiad Corfforaethol (Awst 2016). | **Mae'r Cyngor yn atgyfnerthu ei drefniadau rheoli perfformiad ac yn gwneud cynnydd yn erbyn ein cynigion ar gyfer gwella yng nghyswllt cyllid a TGCh; fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i ymdrin yn llawn â rhai o'r cynigion, gan gynnwys y cynigion sy'n gysylltiedig â rheoli asedau.**<br>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae'r Cyngor wedi gweithredu newidiadau a gynigiwyd i'w fframwaith rheoli perfformiad, ac mae'n parha i fireinio ei drefniadau;<br>• mae proses y Cyngor ar gyfer gosod targedau wedi'i halinio a'i broses cynllunio gwasanaethau;<br>• cyflwynir adroddiadau monitro arbedion i'r pwyllgorau craffu bob chwarter; fodd bynnag, mae lle i wella'r manylon yn rhai o'r adroddiadau, ac ni cheir tryloywder ynghylch y dehongliad o sgoriau CAG;<br>• mae'r Cyngor wedi cwblhau ei strategaeth TGCh yn derfynol; fodd bynnag, mae'n cydnabod y bydd angen mireinio'r strategaeth honno ar ôl cwblhau drafft Strategaeth Ddigidol y Cyngor; ac<br>• nid oedd y Cyngor wedi cyrraedd y targed a osododd ar ei gyfer ei hun, sef Mawrth 2017, i fynd i'r afael â'r cynnig ar gyfer gwella yn gysylltiedig â rheoli asedau. | |

